Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ymateb y Pwyllgor Menter a Dysgu i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei chynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion

Cefndir

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gylchlythyr drafft yn cynnwys ei chynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion ar 22 Hydref 2008. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Rhagfyr 2008. Mae'r Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes, Addysg a Sgiliau yn rhagweld y bydd yn cyhoeddi cylchlythyr diwygiedig o gwmpas 31 Mawrth 2009.

Cyflwyniad

2. Yn ein cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2008, bu i ni graffu ar waith Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a'i swyddogion; yn ogystal â Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a Simon Brown ac Arwel Thomas o Estyn; a Merfyn Benford a Barbara Taylor, o Gymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bach. Cyflwynodd y tystion femoranda ysgrifenedig, y mae dolenni ar eu cyfer i'w cael yn Atodiad 1. Ceir y trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar yn Atodiad 2. Mae'r ymateb a ganlyn yn crynhoi'r dystiolaeth a ystyriwyd ac yn gwneud argymhellion, lle mae hynny'n addas. Ceir crynodeb o'r argymhellion ar dudalen 7.

Cyd-destun y polisi – y symbyliad ar gyfer ad-drefnu

3. Y brif ddogfen bolisi ar gyfer y cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion yw Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/02. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol y dylid eu hystyried gan y sawl sy'n cyflwyno cynigion ac yn egluro'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr achosion a gyflwynir iddynt. Ers ei gyhoeddi yn 2002, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu sawl polisi newydd ac mae niferoedd y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol. Diwygwyd y cylchlythyr drafft y bu'r Gweinidog yn ymgynghori yn ei gylch yn sylweddol er mwyn cynnwys y datblygiadau a fu, sy'n cynnwys y Cyfnod Sylfaen, y Llwybrau Dysgu ac Iaith Pawb.

4. Ystyriwyd y mater o drefniadaeth ysgolion gennym yn fuan wedi i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gyhoeddi ei adroddiad ar ei ymchwiliad i

Ad-drefnu Ysgolion yng Nghefn Gwlad Cymru ar 27 Tachwedd 2008. Er bod yn rhaid i'n hystyriaeth o angen gynnwys trefniadaeth ysgolion ym mhob rhan o Gymru, mae nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cydfynd â'n barn ni. Ceir yr argymhellion yn Atodiad 3. Rydym yn disgwyl am ymateb y Gweinidog iddynt cyn gwneud sylwadau ar faterion megis arfarniadau effaith ar y gymuned ac arfarniadau effaith ar yr iaith.

Ansawdd yr addysg

5. Hoffem bwysleisio barn y pwyllgor mai ansawdd yr addysg a ddarperir ddylai fod yn brif ystyriaeth o ran y cynigion i newid trefniadaeth ysgolion bob tro.

Os yw Estyn wedi cyhoeddi adroddiad bod ysgol wedi methu ei harolygiad, ac os yw trefniadaeth y ddarpariaeth mewn ysgolion yn yr ardal yn ffactor, rydym yn argymell y dylid cychwyn ailasesiad o'r ddarpariaeth o fewn yr awdurdod lleol yn awtomatig.

6. Roeddem yn ymwybodol bod achosion o gau ysgolion, ym Mhowys, er enghraifft, er nad effeithiolrwydd addysgol oedd y prif reswm dros hynny. Felly, rydym wedi gofyn i'r Gweinidog a ddylid pwysoli ei meini prawf hi. Dywedodd y Gweinidog y byddai pwysoli'n anodd a phwysleisiodd yr angen am drosolwg strategol gydag ansawdd yr addysg yn egwyddor lywodraethol.

Strwythur y cylchlythyr drafft

7. Rydym yn cefnogi sylwadau Estyn ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos bod strwythur a chynnwys y cylchlythyr drafft yn nodi y bydd ystyriaeth y Gweinidog yn ehangach nag ystyriaeth ddisgwyliedig y cynigwyr a'u hymgynghoriadau. Rydym yn cytuno y dylai'r Gweinidog ystyried yr un agenda a dilysu'r un meini prawf.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiwygio'r cylchlythyr drafft i sicrhau bod yr ystyriaethau y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniad yn cydfynd â'r rhai y mae'n rhaid i'r cynigwyr eu hystyried.

8. Yn y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, nododd y tystion bod paragraffau 1.7 a 1.16 y cylchlythyr drafft yn rhy oddrychol; barn Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bach oedd fod paragraff 1.16 yn llywio tuag at newid ac yn arwain barn. Rydym o'r farn bod ymagwedd y ddwy adran allweddol hyn o'r cylchlythyr drafft yn ymddangos yn rhy fiwroctrataidd ac yn cael ei harwain gan brosesau.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diwygio paragraffau 1.7 ac 1.16 yn unol â'r sylwadau a'r newidiadau a awgrymwyd gan Estyn, ac yn ailystyried sut y gall sicrhau newid

yn y ddarpariaeth addysg a geir mewn ysgolion bach drwy gyflwyno canllawiau clir a strategol i awdurdodau lleol ynghylch yr asesiad y dylid ei gynnal i sefydlu a yw'r achos i gau ysgol yn gryfach na'r holl ystyriaethau eraill.

Beth yw ysgol fach?

9. Nid oes diffiniad o beth yw ysgol fach yn bodoli ar hyn o bryd. Nid oes barn gyson chwaith ynghylch beth yw'r maint gofynnol hyfyw ar gyfer ysgolion, er bod rhai awdurdodau lleol yn cynnal adolygiadau o dan drothwy. Datganodd y Gweinidog nad yw ymagwedd sy'n gwbl ystadegol yn ddefnyddiol gan ailadrodd ei bod hi o'r farn mai ansawdd yr addysg oedd bwysicaf. Rhoddwyd llawer o sylw i ffigur y Comisiwn Archwilio o 90 o ddisgyblion ar gyfer ysgolion yn Lloegr, sy'n cael ei argymell ar sail cost yn unig. Bu i ni ystyried hyn a'i gael yn ddiffygiol yn y cyd-destun Cymreig.

10. Yn achos ysgolion uwchradd, mae corff o dystiolaeth ryngwladol sy'n awgrymu bod maint ysgolion yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau addysgol. Canfuwyd nad yw ysgolion mwy mor effeithiol yn gyffredinol o ran cynorthwyo disgyblion sy'n cyflawni ar lefel isel. Cydnabyddodd y Gweinidog yr her sy'n wynebu awdurdodau o ran mynd i'r afael â'r agenda i weddnewid addysg ôl-16. Atgoffodd ni hefyd fod materion cynnal a chadw yr ystad ysgolion yn fwy ar gyfer ysgolion uwchradd.

11. Dywedodd Estyn wrthym nad oedd cysylltiad rhwng maint dosbarthiadau a chyflawniad addysgol. Neges allweddol ymchwiliadau Estyn felly yw –"nid yw maint yn cyfri"—y naill ffordd na'r llall.

Yr angen am gyfeiriad strategol

12. Roedd llawer o'r dystiolaeth a archwiliwyd gennym yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol a'r angen am ganllawiau a chyfeiriad strategol clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

13. Holwyd y Gweinidog ynghylch y diffyg trylowyder ymddangosiadol o ran y berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol ar y mater hwn. Cydnabu'r Gweinidog yr angen i weithio mewn partneriaeth mwy eglur gyda llywodraeth leol ac am 'waith gweddnewid gweithredol'. Pwysleisiodd y ffaith ei bod yn credu mai rôl y Llywodraeth yw cyflwyno canllawiau a fframwaith ar gyfer cynigion trefniadol, ond ni ddylai fod yn rhy benodol, er mwyn caniatáu i'r cyfrifoldeb orwedd gyda'r awdurdodau lleol.

14. Yn ogystal, bu i ni archwilio'r angen i awdurdodau lleol weithredu'n strategol wrth ddyrannu eu cyllid cyfalaf – dylai cynllunio ariannol a chynllunio strategol fynd law yn llaw.

15. Yn unol â'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn, credwn fod angen strategaethau cynhwysfawr ar gyfer y tymor hir. Yn hytrach nag ymdrin â chynigion ar gyfer cau ysgolion unigol, pe bai awdurdodau yn gweithredu strategaethau eang, ystyrlon byddai'n haws gwneud penderfyniadau unigol. Clywsom gan Estyn mai mynediad a lleoedd mewn ysgolion yw'r maes gwanaf o ran gwasnaethau awdurdodau lleol ac nad ydynt yn gweithredu'n ddigon cadarn yn strategol i ostwng nifer y lleoedd.

16. Rydym yn nodi mai £30 miliwn yw cost y lleoedd gwag ar hyn o bryd ac y rhagwelir y bydd nifer y lleoedd gwag yn cynyddu i 100,000 erbyn 2016, os bydd y tueddiadau presennol yn parhau. Mae hyn yn dangos yn glir nad yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r mater o leoedd gwag.

17. Byddem yn gefnogol iawn o ffordd holistaidd o ad-drefnu ysgolion, fel y gellid trafod effaith y ddarpariaeth well a gynigir a chyfeiriad strategol awdurdodau ar faterion megis adfywio fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori.

Anogwn Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu canllawiau clir i awdurdodau ar ymagwedd strategol a fyddai'n ystyried effaith ad-drefnu ar draws portffolios perthnasol yr awdurdodau.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cyngor i awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl strategaethau perthnasol yn cysylltu â'i gilydd.

Yr angen am ymgynghori effeithiol

18. Rhaid i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno cynigion statudol; yna, bydd y Gweinidog yn ystyried digonolrwydd yr ymgynghoriadau wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynigion. Cawsom ein sicrhau nad oes unrhyw beth yn y broses briodol a fyddai'n atal ymgysylltu'n fuan â rhanddeiliaid, hyd yn oed pe na bai'n bosibl trafod cynigion penodol bob tro. Cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bach ei barn yn huawdl nad yw'r cylchlythyr drafft yn cynnwys digon o fanylion o ran rhestru'r wybodaeth sydd ei hangen ar ymgyngoreion i ymateb i gynigion.

19. Clywsom dystiolaeth fod peth arfer da yn ymddangos o ran ymgynghori ar gynigion i gau ysgolion mewn awdurdodau lleol a bod sawl gwers wedi cael ei dysgu mewn blynyddoedd diweddar ynghylch sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Cyfeiriwyd at gyfarfodydd a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Powys yn Ystradgynlais fel enghraifft dda yn ddiweddar o sut y gall awdurdodau lleol gyflwyno'r cefndir cyn y cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion ymysg y rhanddeiliaid.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu dull addas i ledaenu arferion da ar frys o ran ymgynghori ymysg cymunedau ar gynigion i gau ysgolion drwy Gymru yn dilyn cyhoeddi'r cylchlythyr diwygiedig a'i bod yn monitro ac yn gwerthuso'r arfer sy'n datblygu.

Er mwyn cefnogi'r adran ar 'Safbwyntiau grwpiau sydd â diddordeb' yn y cylchlythyr drafft, rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i gefnogi'r cylchlythyr diwygiedig. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys cyngor ac amserlenni manwl sy'n cyfleu ffurf a buddiannau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar ynghylch cynigion i gau ysgolion, ac i ddatblygu'r ymgysylltu hwnnw.

Rydym yn argymell bod angen llinell amser gliriach ar gyfer cysylltiad y Gweinidog â'r broses a'r penderfyniad.

20. Wrth wneud yr argymhellion hyn, rydym yn gweithredu'n unol ag argymhelliad 9 adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ysgolion gwledig a gyhoeddwyd yn ddiweddar, o ran ffurfioli rôl yr holl randdeiliaid yn y broses o gau ysgolion. (Gweler Atodiad 3 ar gyfer testun yr argymhelliad).

Ystad yr ysgolion

21. Roedd llawer o drafod ynghylch effaith ansawdd ystad yr ysgolion ar answadd y profiad addysgol. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bach nad oedd cyflwr adeiladau ysgolion yn fwy pwysig nag answadd y dysgu. Ar y llaw arall, cyflwynodd Estyn dystiolaeth o'i arolygiadau oedd yn dangos bod adeiladau gwell yn cyfrannu at berfformiad gwell.

22. O gofio maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer yr ystad ysgolion, mae cynnal a chadw adeiladau sy'n hanner gwag yn amlwg yn anghynaliadwy. Bydd y broblem hon yn cynyddu o gofio'r amcangyfrifon o nifer y lleoedd gwag fydd yn bodoli dros y blynyddoedd i ddod.

23. Credwn hefyd fod problem lle mae ysgolion yn tyfu y tu hwnt i'w capasiti, oherwydd dewis rhieni a chymhlethdodau o ran pennu dalgylchoedd. Dywedwyd wrthym fod pwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn gyfyngedig, ond y bydd côd ymarfer newydd ar apeliadau derbyn ar gael yn fuan.

Anghenion dysgu ychwanegol

24. Mae canfyddiad gweddol eang ei bod yn well darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion bach. Credai'r Gweinidog fod ei hymgynghoriad, gyda'i bwyslais ar y polisi cynhwysiant, yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddigonol. Ni chredai Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant fod cysylltiad rhwng maint ysgol ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth anghenion arbennig.

Casgliad

25. Ar sail y dystiolaeth a archwiliwyd gennym, credwn fod diffyg arweiniad strategol, cynllunio darbodus a gweithredu effeithiol o ran trefniadaeth ysgolion yng Nghymru.

Wrth ymateb i'w hymgynghoriad a chwblhau ei chylchlythyr diwygiedig, anogwn Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i sicrhau y caiff ymagwedd strategol gadarn, gyfleus a holistaidd ei mabwysiadu yn y dyfodol.

Crynodeb o'r argymhellion

Os yw Estyn wedi cyhoeddi adroddiad bod ysgol wedi methu ei harolygiad, ac os yw trefniadaeth y ddarpariaeth mewn ysgolion yn yr ardal yn ffactor, rydym yn argymell y dylid cychwyn ailasesiad o'r ddarpariaeth o fewn yr awdurdod lleol yn awtomatig.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiwygio'r cylchlythyr drafft i sicrhau bod yr ystyriaethau y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniad yn cydfynd â'r rhai y mae'n rhaid i'r cynigwyr eu hystyried.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diwygio paragraffau 1.7 ac 1.16 yn unol â'r sylwadau a'r newidiadau a awgrymwyd gan Estyn, ac yn ailystyried sut y gall sicrhau newid yn y ddarpariaeth addysg a geir mewn ysgolion bach drwy gyflwyno canllawiau clir a strategol i awdurdodau lleol ynghylch yr asesiad y dylid ei gynnal i sefydlu a yw'r achos i gau ysgol yn gryfach na'r holl ystyriaethau eraill.

Anogwn Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu canllawiau clir i awdurdodau ar ymagwedd strategol a fyddai'n ystyried effaith ad-drefnu ar draws portffolios perthnasol yr awdurdodau.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cyngor i awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl strategaethau perthnasol yn cysylltu â'i gilydd.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu dull addas i ledaenu arferion da ar frys o ran ymgynghori ymysg cymunedau ar gynigion i gau ysgolion drwy Gymru yn dilyn cyhoeddi'r cylchlythyr diwygiedig a'i bod yn monitro ac yn gwerthuso'r arfer sy'n datblygu.

Er mwyn cefnogi'r adran ar 'Safbwyntiau grwpiau sydd â diddordeb' yn y cylchlythyr drafft, rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i gefnogi'r cylchlythyr diwygiedig. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys cyngor ac amserlenni manwl sy'n cyfleu ffurf a buddiannau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar ynghylch cynigion i gau ysgolion, ac i ddatblygu'r ymgysylltu hwnnw.

Rydym yn argymell bod angen llinell amser gliriach ar gyfer cysylltiad y Gweinidog â'r broses a'r penderfyniad.

Wrth ymateb i'w hymgynghoriad a chwblhau ei chylchlythyr diwygiedig, anogwn Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i sicrhau y caiff ymagwedd strategol gadarn, gyfleus a holistaidd ei mabwysiadu yn y dyfodol.

ATODIADAU

Atodiad 1 – Tystiolaeth Ysgrifenedig

Y Gweinidog dros Addysg, Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=107810&ds=1/2009

Estyn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=108099&ds=1/2009

Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bach:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=107826&ds=1/2009

Atodiad 2 – Cofnod y Trafodion

Cyfarfod y Pwyllgor, 10 Rhagfyr 2008:
http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=109310&ds=1/2009

Atodiad 3 – Argymhellion yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig o ganlyniad i'w Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion Cefn Gwlad Cymru, 27 Tachwedd 2008

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru

- yn darparu canllawiau cliriach i'r awdurdodau lleol ar sut i ddiffinio ac ymdrin â lleoedd dros ben;
- yn comisiynu ymchwil pellach i gost wirioneddol lle dros ben.

Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn unrhyw ganllawiau newydd ar leoedd dros ben, yn datgan yn glir mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw delio â materion defnyddio adnoddau a lleoedd dros ben o fewn ei gyllideb drwyddi draw a'i bolisi addysg.
Dylid ei gwneud yn glir mai'r awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ac na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwysau ar awdurdodau unigol.
Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gweledigaeth glir i ysgolion cynradd Cymru:

- I gynnwys diffiniad o'r hyn y mae "addas i'r diben" yn ei olygu;
- I fireinio a disgrifio "Safon Ysgolion i Gymru"

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r ystâd ysgolion i sefydlu faint o safleoedd ysgolion a fyddai'n cydymffurfio â'r safon a faint o fuddsoddiad a fydd yn ofynnol er mwyn gwella holl ysgolion Cymru fel eu bod yn cyrraedd y safon hon.

Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu strategaeth glir i sicrhau y bydd pob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y safon hon o fewn amserlen gyhoeddedig, y cytunwyd arni.
Argymhelliad 6: Nad oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiffinio ysgol fach yn ôl y nifer o ddisgyblion sy'n gofrestredig ar unrhyw adeg - ond ei bod yn diffinio ysgol fach yn ôl y staff a baich addysgu'r Pennaeth er mwyn darparu cymorth a'i dargedu at yr ysgolion hynny lle mae'r mwyaf o angen cymorth o'r fath.
Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cod ymarfer ar ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â'r gymuned y dylai awdurdodau lleol gadw ato wrth reoli'r broses hon.
Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys yr angen i AALlau fod yn agored a thryloyw wrth ymgynghori ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i ymgynghori ystyrlon, wedi'i seilio ar wybodaeth, fod wrth galon y broses hon.
Argymhelliad 9: Yn ei chanllawiau diwygiedig, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro a ffurfioli rôl yr holl randdeiliaid yn y broses gau. Dylai'r canllawiau diwygiedig ei gwneud yn glir fod disgwyl i awdurdodau lleol fynd ati o ddifrif i roi gwybodaeth i gymunedau lleol ac yna helpu'r cymunedau hynny i gymryd rhan yn y ddadl ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd mewn unrhyw ardal neilltuol yn y dyfodol.
Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i'r effeithiau academaidd a chymdeithasol ar blant ar ôl iddynt symud i ysgol fwy.
Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i asesu a llwyr ddeall effaith cau ysgolion ar gymunedau yng nghefn gwlad Cymru.
Argymhelliad 12: Dylai AALlau gynnal asesiadau trylwyr o'r effaith ar y gymuned cyn cau unrhyw ysgol fach. Ar sail ei hymchwil ei hun, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau i AALlau ar ymgymryd ag asesiadau o'r fath o'r effaith ar y gymuned.
Argymhelliad 13: Y dylai'r effaith ar yr iaith gael ei hystyried yn un o'r prif ffactorau penderfynu pan fydd awdurdodau leol yn penderfynu ynglŷn â chau ysgolion.
Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses ar gyfer ad-drefnu ysgolion er mwyn atgyfnerthu rôl awdurdodau addysg lleol, eu cynorthwyo â'u cyfrifoldebau o ran y broses ad-drefnu ac ystyried trosglwyddo'r hawl i glywed apeliadau yn erbyn cynigion i ad-drefnu ysgolion i gymrodreddwr annibynnol.